FFORWM MYNEDIAD LLEOL WRECSAM
COFNODION CADARN

Unfed cyfarfod ar bymtheg ar hugain o'r Fforwm a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora 1, Neuadd y Dref, Wrecsam ar Ddydd Gwener, 5ed Chwefror 2010 am 1.30 pm

PRESENOLDEB ac YMDDIHEURIADAU

Presenoldeb:

SWYDDOG LLYWYDDU AC YSGRIFENNYDD
Carla McCusker (CM)

CADEIRYDD
Mabyn Pickering (MP)

AELODAU
Sue Gittins (SG) (Dirprwy Gadeirydd)
John Cooper-Poole (JCP)
Martin Howorth (MH)
Gerald Moss (GM)
Tim Stratton (TS)
Janet Williams (JW)
Mike Crawshaw (MC)
Natalie Edwards (NE)
George Kinder (GK)
Peter Cade (PC)
Edward Wardle (EW)
Guy Springett (GS)
Gwynfor Jones (GJ)

ERAILL
Sean Hanratty (SH) (CBSW)
Sion Roberts (SR) (CBSW)
Alun Price (AP) (CCGC)

Ymddiheuriadau: Shelagh Roberts (SR), Mary Roberts (MR), John Evans (JE)

01/10 Presenoldeb ac Ymddiheuriadau

Nodwyd fel yr uchod.

02/10 Materion yn Codi o Gofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Hydref 2010

Map Diffiniol – Diolchwyd i Charlotte yn yr Adran Hawliau Tramwy am baratoi'r map diffiniol.

Hyfforddiant Cerddwyr – Cytunwyd y byddai'n briodol i aelod LAF sydd hefyd yn aelod o Gymdeithas y Cerddwyr drefnu hyfforddiant os yw aelodau LAF yn teimlo y byddai hyn yn ddefnyddiol. Dywedodd JCP bod modd trefnu hyfforddiant trwy Mike Mills yn swyddfa Caerdydd. Mae'n debygol y byddai tâl yn cael ei godi am yr hyfforddiant. Fel arall, gallai aelodau â diddordeb fynychu diwrnod hyfforddiant tebyg i'r un a gynhaliwyd yn Llandudno ym mis Mawrth 2008.

03/10 Adroddiad y Cadeirydd

Dywedodd y Cadeirydd y cafwyd cysylltiadd â National Grid ar ôl amryw fisoedd ac y gwnaed peth cynnydd.

04/10 Adroddiad yr Ysgrifennydd

Mae Richard Sumner (Swyddog Cynllunio Tirwedd) yn barod i fynychu cyfarfod LAF yn y dyfodol i drafod ardaloedd o harddwch naturiol eithriadol yn y Sir.

05/10 Adroddiad Ceidwaid Mynediad

Erbyn hyn gorffennwyd holl waith Gwella Hawliau Tramwy 2009/2010. Ar hyn o bryd rydym yn gweithio ar restr newydd o waith / prosiectau ar gyfer y flwyddyn a ddaw.

Erbyn hyn mae Alison wedi cymryd yr awenau ar fwyafrif y cwynion cyffredinol ac mae wedi bod yn canolbwyntio'n bennaf ar y rheiny. Mae hefyd wedi bod yn gweithio ar brosiect llwybrau troed cymunedol Broughton y gorffennwyd mwyafrif y gwaith arno bellach. Mae taith gron gyfan gwbl rydd o gamfeydd yn cael ei datblygu hefyd.

Mae arwyddbyst newydd gyda chyrchfannau arnynt i gael eu gosod o gwmpas Gwersyllt tua diwedd y mis yma. Bydd yr arwyddion yn cyfrannu at ein targed o osod 100 o arwyddion bob blwyddyn.

Bu Dave yn gweithio ar restr o waith i'w wneud ar Glawdd Offa eleni, ynghyd â goruchwylio ein dangosyddion perfformiad gwerth gorau. Bydd yn cysylltu â Chyngor Cymuned y Waun cyn bo hir i weld a oes ganddynt ddiddordeb neu beidio mewn gweithio gyda ni a Groundwork ar brosiect llwybrau troed cymunedol. Bydd Dave yn arwain tro dywysedig ar ddydd Iau Ebrill 8 (Cronfeydd Dŵr y Mynydd) gyda phawb i gyfarfod yn Nhafarn yr Haul, Stryt y Plas, Rhos.

Mae Charlotte yn dal i gofnodi'r holl gwynion cyffredinol a dderbyniwn ynghylch cynnal a chadw ymlaen ar gronfa ddata cams. Gan ddefnyddio gwybodaeth o'n cronfa ddata mae wedi llwyddo i greu cofrestr / rhestr o fwyafrif y gwahanol bontydd sydd gennym ar Hawliau Tramwy Cyhoeddus fel bod modd harchwilio eu diogelwch / cyflwr. Rhywbryd o fewn y pythefnos nesaf bydd yn cyfarfod ein tîm

gwe i drefnu i'n tudalen we gwirfoddolwyr fynd yn fyw ar ein gwefan. Yn ystod yr wythnos ddiwethaf fwy neu lai bu'n gweithio'n galed i gael argraffedig copïau o'r mapiau diffiniol ar gyfer cyfarfod y Fforwm Mynediad Lleol heddiw.

Holodd TS ynghylch cynnydd y gwaith ar lwybrau ceffylau ym Mrymbo. Dywedwyd bod rhifau 9 a 10 ar gau dros dro oherwydd problem gyda draenio. Mae rhif 12 wrthi'n cael ei drosi o lwybr ceffylau i lwybr troed. Gofynnodd TS a yw'n dal dan glo. Cadarnhaodd SH ei fod yn dal dan glo gan fod camfeydd arno. Mynegwyd pryderon ymysg aelodau LAF ynghylch diraddio'r llwybr hwn. Dywedodd SH wrth ei gydweithwyr bod y perchennog wedi gofyn i'r llwybr gael ei israddio. Fodd bynnag mae'r ALI ar hyn o bryd yn edrych ar y dystiolaeth yn ddiduedd. Mae angen eglurhad o ran lled y llwybr troed.

Gweithredu
Bydd ceidwad yn ymweld â'r safle i fesur lled y llwybr troed. Bydd TS yn cerdded y llwybr troed ar ran y Fforwm ac yn rhoi adroddiad i'r cyfarfod nesaf.

Cyfeiriodd JW at bapurau diweddar a dderbyniwyd oddi wrth yr ALI o ran Ffordd Plas Bennion. Holodd JW a fyddai modd uwchraddio hon yn llwybr amlddefnydd. Dywedodd SH bod y tir yn ym meddiant unig berchennog preifat. Cyflwynwyd cais gwreiddiol yn gofyn bod un llwybr yn cael ei ddileu. Fodd bynnag, yn dilyn ymchwiliad cyhoeddus, penderfynodd yr Arolygydd y dylai fod dau lwybr. Ychwanegodd SH y derbyniodd yr ALI gais yn 1991 ac mai dim ond yn ddiweddar y cadarnhawyd y gorchymyn.

Holodd JCP ynghylch y llwybr ceffylau yn Nolydd Burton, yr Orsedd. Dywedodd SH ei fod bellach wedi derbyn gwybodaeth o'r gofrestrfa tir a bod hyn mewn llaw.

Diolchodd y Cadeirydd i FH, SR a SH am eu hymdrechion ar ran y Fforwm.

06/10 Cerdded o Gwmpas Wrecsam – Natalie Edwards

Rhannodd NE raglen i'r aelodau o ran 'Cerdded o Gwmpas Wrecsam'. Eglurodd NE bod y rhaglen yn cael ei hariannu gan y Loteri Fawr ac y daw'r cyllid i ben ym mis Mawrth 2010. Ar hyn o bryd mae 13 taith gerdded bob wythnos. Y daith wythnosol yng Ngwaunyterfyn fu'r tro mwyaf poblogaidd, gyda rhwng 30 a 50 o gerddwyr arni. Bu rhwng 10 a 20 o gerddwyr ar fwyafrif y teithiau.

Diolchodd y Cadeirydd i NE am ei chyflwyniad.

07/10 Prosiect Gwella Cyfleoedd Marchogaeth – Yvonne Palmer

Roedd Yvonne Palmer, Swyddog Diogelwch Ceffylau, yn bresennol i roi cyflwyniad i'r grŵp ar brosiect i wella cyfleoedd marchogaeth. Cylchredwyd taflen er gwybodaeth. Eglurodd YP mai nod y prosiect yw hyrwyddo marchogaeth a diogelwch ar y ffyrdd trwy annog marchogion i gymryd rhan mewn BHS hyfforddiant a phrofion marchogaeth a diogelwch ar y ffyrdd, ac i dynnu sylw defnyddwyr eraill y ffyrdd at farchogion. Mae'r prosiect yn gydymdrech yn cynnwys AVOW a'r Adran Hawliau Tramwy.

Diolchodd y Cadeirydd i YP am ddod i'r cyfarfod.

08/10 Cyngor Cefn Gwlad Cymru (Alun Price)

Dywedodd AP bod CCGC yn dioddef toriadau mewn gwariant cyhoeddus. Clustnodwyd cyllideb grant o £50k i gynorthwyo'r ALl gyda gwaith grant yn ystod 2010-2011. Mae hwn yn doriad o ryw £20k ar y llynedd. Mae CCGC a'r ALl yn gweithio ar raglen 3 blynedd.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at lwybrau troed oedd yn flaenorol dan gynllun Glastir, gan holi a fyddant yn dal dan y Cynllun Glastir newydd. Dywedodd AP bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi cymryd y cynllun hwn ac mai yno y dylid cyfeirio cwestiynau.

09/10 Unrhyw Fater Arall

Cyfarfod Cadeiryddion LAF, Llanfair ym Muallt – Atgoffodd SG y grŵp o faterion a godwyd yng Nghyfarfod Cadeiryddion LAF ym mis Hydref, oedd yn ymwneud yn bennaf â chŵn yng nghefn gwlad. Mae ffilmiau a thaflenni cyhoeddus i gael eu hailgyhoeddi fel rhan o waith ymwybyddiaeth addysgol. Mae gan SG amryw ddogfennau ar y testun hwn os byddai unrhyw un yn hoffi rhagor o wybodaeth. Cyfeiriwyd at ddigwyddiad yn Cumbria lle lladdwyd milfeddyg gan fuwch pan redodd ei chi rhwng buwch a'i llo. Dywedodd GJ wrth yr aelodau bod Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr wedi cyhoeddi rhybuddion yn gofyn i bobl beidio â defnyddio llwybrau troed os oes ganddynt gi gyda hwy a gwartheg yn bresennol. Eglurodd GJ bod Deddf Anifeiliaid 1970 yn rhoi cyfrifoldeb pendant ac atebolrwydd ar berchennog y da byw, ac yr erlynwyd rhai amaethwyr. Fodd bynnag, mae Adran 5 y Ddeddf yn datgan os bydd rhywun o fwriad yn mynd i sefyllfa beryglus nad yw cyfrifoldeb pendant ar yr amaethwr. Gall Adran 2 y Ddeddf gael ei hadolygu ond mae arwyddion yn hanfodol yn y cyfamser, er mwyn gwneud y cyhoedd yn fwy ymwybodol o'r peryglon.

Materion Trawsffiniol - Cyfarfu TS a SG â Jean Rosenfeld (Cadeirydd LAF Sir y Fflint) a David Davies (Ysgrifennydd LAF Sir y Fflint) ar 5ed Ionawr 2010. Roedd y cyfarfod yn gadarnhaol ac addysgiadol iawn. Amlinellodd y Cadeirydd a'r Ysgrifennydd sut mae LAF Sir y Fflint yn gweithredu. Nodwyd bod gan eu LAF is-bwyllgor, sy'n gweithio'n uniongyrchol gydag Adran Hawliau Tramwy Sir y Fflint ynghylch cynnal llwybrau troed. Gwnaeth TS y sylw y dylai cyfarfod LAF Wrecsam fod yn strategol yn hytrach na thactegol, gan y byddai'n well trafod rhai materion ar lefel is-bwyllgor. Ychwanegodd TS y gall fod yn well trafod materion trawsffiniol mewn is-bwyllgor ar yr un lefel ag Adrannau Hawliau Tramwy Sir y Fflint a Wrecsam, yn enwedig gan fod Sir y Fflint yn fodlon edrych ar feysydd pryder penodol. Mae Jean Rosenfeld hefyd yn Gadeirydd y LAF Cenedlaethol yng Nghymru. Mae wedi cynnig dod i un o gyfarfodydd LAF Wrecsam i sôn am y LAF Cenedlaethol. Cytunwyd y byddai hyn yn gyfle defnyddiol i gael gwybodaeth am y LAF Cenedlaethol ac arweiniad o ran cŵn yng nghefn gwlad, 4x4 yng nghefn gwlad, cyllidebu ac is-grwpiau LAF. Mae Sir y Fflint hefyd wedi gwahodd Wrecsam i fod yn rhan o gyfarfod ar y cyd ar 19eg Ebrill 2010, ond mae angen eglurhau diben y cyfarfod hwn.

<u>Gweithredu</u>

Yr ysgrifennydd i gysylltu â Sir y Fflint i eglurhau diben y cyfarfod ar 19eg Ebrill ac i wahodd Jean Rosenfeld i un o gyfarfodydd LAF Wrecsam.

LAF Sir Ddinbych – Ni ailetholwyd aelodau LAF Sir Ddinbych eto.

Fforwm Mynediad Cenedlaethol – Mynychodd TS gyfarfod y Fforwm Mynediad Cenedlaethol ym mis Tachwedd a rhoddodd ddiweddariad i'r grŵp. Mynegodd TS bryder ynghylch cyfathrebu rhwng Fforymau. Mae'n ymddangos nad yw materion yn cael eu trafod yn ddwyochrog gan aelodau gyda grwpiau perthnasol, ac mae diffyg cydgysylltu gyda ffynonellau arian. Bydd y pryderon hyn yn cael eu codi gyda Jean Rosenfeld.

Mapiau Diffiniol – Rhannwyd pedwar copi o'r map diffiniol ymysg aelodau fel a ganlyn:

- GM, Whitchurch
- JW, Bwlch-gwyn
- SG, Canol Wrecsam
- MP, De Wrecsam

Mae'r copïau ar gael i holl aelodau LAF eu benthyca. Cysylltwch â'r aelod LAF sy'n byw agosaf atoch o'r rhestr uchod. Mae copi ar gael hefyd ar wefan Cyngor Wrecsam, dan Hawliau Tramwy.

Cylch Gorchwyl – Mae SG wedi adolygu Cylch Gorchwyl y LAF. Mae'n annhebygol y bydd angen diweddaru'r ddogfen.

Adroddiad Dŵr Mewndirol – Mae angen cadarnhad gan AP (CCGC) a yw Wrecsam yn rhan o'r cynllun rhagbrofi.

Gweithredu
Y Cadeirydd i godi'r mater gydag AP yn y cyfarfod nesaf.

Cofnodion a Materion yn Codi - Trafodwyd newid dull gweithredu o ran 'Cofnodion a Materion yn Codi'. Cytunwyd y bydd cywirdeb cofnodion yn cael ei drafod ar ddechrau cyfarfodydd yn y dyfodol a materion sy'n codi'n cael eu trafod ar ddiwedd cyfarfodydd.

10/10 Eitemau ar gyfer yr agenda nesaf

- Richard Sumner – Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol
- Jean Rosenfeld – Cadeirydd y LAF Cenedlaethol

1/10 Dyddiad a lleoliad cyfarfod nesaf

Dydd Gwener 14eg Mai 2010, Melin y Nant, 2pm.